## Pan Ddaw fy Nhro

Pan ddaw fy nhro, fy Nuw, yn falch neu'n flin,
I ddiosg hyn o wisg yr enaid tlawd,
Mi rof ffarwel yn rhwydd wrth groesi'r ffin
I ddifyr, ddarfodedig bethau'r cnawd.
A bodlon fyddaf pan ddaw niwl y glyn
I lwyr anghofio miri'r bywyd hwn,
A'm hebrwng draw lle nad oes bren na bryn,
Na lloer na sêr i roddi balm neu bwn.
Popeth a welodd llygad gynt yn gain,
Pob lliw a roed i wanwyn, hydref, haf;
Popeth a glywodd clust, pob ias, pob sain,
Ildiaf y cwbl yn llon, pe'n siŵr y caf
Ryw hen gwmnïaeth wiw mewn arall fyd
A wnaeth baradwys im yn hwn gyhyd.

***Rhydwen Williams***